Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG
Ffôn: 01443 864320

Penallta House
Tredomen Park
Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG
Tel: 01443 864320

# Diogelu Data - Ffurflen Gais Mynediad at Ddata gan y testun

Mae hawl Mynediad at Ddata yn rhoi hawl i unigolyn (testun data), neu berson sy'n gweithredu ar ran yr unigolyn hwnnw, gael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei chadw amdano.

Bydd y Cyngor yn ymateb i Gais Mynediad at Ddata gan y testun o fewn 1 mis calendr o gael y cais a manylion adnabod/dogfennau gofynnol. Efallai y bydd y cyfnod hwn yn ymestyn ar gyfer ceisiadau cymhleth, ac os felly, byddwn ni'n eich hysbysu o ddyddiad cydymffurfio diwygiedig.

Os hoffech chi gyngor neu gymorth i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol ar 01443 864320 neu drwy e-bost FOI@caerffili.gov.uk.

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg, braille ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu'ch cais, yr wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais, eich manylion adnabod a'ch manylion cyswllt at ddibenion rhoi ymateb i chi. Bydd copi o'ch cais a'ch ymateb yn cael ei gadw am 3 blynedd.

Bydd eich cais, gan gynnwys eich manylion adnabod a'ch manylion cyswllt, yn cael ei ddosbarthu i feysydd gwasanaeth perthnasol ac aelodau etholedig a allai fod â'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani neu sy'n ymwneud â phrosesu ceisiadau. Efallai y gwnawn ni ymgynghori â sefydliadau ac unigolion eraill a allai gael eu heffeithio gan ddatgelu'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani cyn gwneud penderfyniad ar y datgeliad ac efallai y bydd eich manylion adnabod yn cael eu datgelu iddyn nhw.

Os ydych chi'n gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) neu eraill mewn perthynas â phrosesu'ch cais, efallai bydd copïau o'ch cais, yr ymateb ac unrhyw ohebiaeth ychwanegol rhyngoch chi a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n berthnasol i'ch cais yn cael eu rhannu â nhw.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd rydyn ni wedi ymdrin â'ch cais neu'ch gwybodaeth chi.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

www.caerffili.gov.uk/HysbysiadauPreifatrwydd

| **At ddefnydd y swyddfa yn unig** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad derbyn: | | Swyddog derbyn: | | Cyfeirnod cais: | |

## Adran 1 Dogfennau adnabod/dogfennau eraill sydd eu hangen i ategu'r cais

Isod ceir manylion y dogfennau adnabod/dogfennau eraill sydd eu hangen i ategu Cais Mynediad at Ddata gan y testun.

| Perthynas â Thestun y Data | Dogfennau adnabod/dogfennau eraill sydd eu hangen |
|---|---|
| Fi yw testun y data sy'n gwneud cais am wybodaeth amdanaf i fy hun. | • un math o ddogfen adnabod wreiddiol sy'n cynnwys eich cyfeiriad presennol (testun data), er enghraifft, bil cyfleustodau diweddar (o fewn 3 mis oed), ac<br>• un math o ddogfen adnabod wreiddiol sy'n cynnwys eich llofnod (testun data), er enghraifft, trwydded yrru neu basbort dilys. |
| Rwy'n gwneud y cais ar ran plentyn y mae gennyf gyfrifoldeb rhiant amdano, gan nad yw'r plentyn yn gallu deall goblygiadau gwneud cais/yr wybodaeth sy'n debygol o gael ei darparu. [1] | • un math o ddogfen adnabod wreiddiol sy'n cynnwys eich cyfeiriad presennol (ymgeisydd), er enghraifft, bil cyfleustodau diweddar (o fewn 3 mis oed), ac<br>• un math o ddogfen adnabod wreiddiol sy'n cynnwys eich llofnod (ymgeisydd), er enghraifft, trwydded yrru neu basbort dilys. |
| Rwy'n gyfreithiwr sy'n gwneud y cais ar ran fy nghleient. | • un math o ddogfen adnabod wreiddiol sy'n cynnwys cyfeiriad presennol testun y data, er enghraifft, bil cyfleustodau diweddar (o fewn 3 mis oed), ac<br>• un math o ddogfen adnabod wreiddiol sy'n cynnwys llofnod testun y data, er enghraifft, trwydded yrru neu basbort dilys, a<br>• tystiolaeth o'ch awdurdod i weithredu ar ran testun y data, er enghraifft, ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi'n ddiweddar (o fewn 3 mis oed) neu Atwrneiaeth Arhosol - Iechyd a Lles neu debyg. |
| Unrhyw berson arall sydd ag awdurdod i weithredu ar ran testun y data. | • un math o ddogfen adnabod wreiddiol sy'n cynnwys cyfeiriad presennol testun y data, er enghraifft, bil cyfleustodau diweddar (o fewn 3 mis oed), ac<br>• un math o ddogfen adnabod wreiddiol sy'n cynnwys llofnod testun y data, er enghraifft, trwydded yrru neu basbort dilys, a<br>• tystiolaeth o'ch awdurdod i weithredu ar ran testun y data, er enghraifft, ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi'n ddiweddar (o fewn 3 mis oed) neu Atwrneiaeth Arhosol - Iechyd a Lles neu debyg. |

**Nodiadau**

[1] Dylid nodi y gall rhiant gael mynediad at gofnodion eu plentyn os yw hynny'n cael ei ystyried i fod er lles y plentyn. Os yw plentyn yn 12 oed neu drosodd, ystyrir fel arfer bod gan y plentyn y gallu i ddeall goblygiadau gwneud cais. Felly, dylai'r plentyn naill ai wneud y cais ei hun, neu mae'n rhaid gwneud y cais gyda chaniatâd y plentyn. Os yw'r cais yn cael ei wneud gyda chaniatâd y plentyn, gweler 'Unrhyw berson arall ag awdurdod i weithredu ar ran testun y data' am y dogfennau adnabod/dogfennau eraill sydd eu hangen.

## Adran 2 Manylion Testun y Data a'r Ymgeisydd

| | Manylion Testun y Data | Manylion yr Ymgeisydd (os nad ef yw testun y data) |
|---|---|---|
| **Teitl:** | | |
| **Enw cyntaf:** | | |
| **Cyfenw:** | | |
| **Unrhyw Enw Arall:** | | |
| **Dyddiad Geni:** | | |
| **Cyfeiriad Presennol:** | | |
| **Cyfeiriad Blaenorol:** (Os ydych wedi symud yn y 3 blynedd diwethaf) | | |
| **Rhif ffôn:** | | |
| **Cyfeiriad e- bost:** | | |

## Adran 3 Y cais

Er mwyn ein galluogi ni i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen am destun y data, darparwch gymaint o'r wybodaeth ganlynol ag y gallwch:-

**Disgrifiwch yn benodol yr wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani:**

**Gwasanaethau'r Cyngor rydych chi wedi'u cael sy'n berthnasol i'r cais:**

**Unrhyw gyfeirnodau neu enwau cyswllt a allai fod yn berthnasol:**

| |
|---|
| |

**Unrhyw ddyddiadau a allai fod yn berthnasol:**

| |
|---|
| |

**Unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol i'r cais hwn:**

| |
|---|
| |

## Adran 4 Datganiad

**I'w llenwi gan bob ymgeisydd. Sylwer y gall unrhyw ymgais i gamarwain Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili arwain at erlyniad**.

Rwy'n deall:

- bod angen darparu'r dogfennau adnabod/dogfennau perthnasol a nodir yn Adran 1 i'r Cyngor er mwyn cadarnhau hunaniaeth testun y data a'r ymgeisydd ac er mwyn sefydlu'r awdurdod i gael yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.
- efallai y bydd angen i'r Cyngor gael rhagor o wybodaeth gennyf i er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Bydd y cais yn cael ei ohirio tan y bydd yr wybodaeth yn dod i law.
- efallai y bydd angen i'r Cyngor ymgynghori â thrydydd parti y gallai datgelu gwybodaeth effeithio arnyn nhw.
- bod cais mynediad at ddata gan y testun yn gais am wybodaeth am destun y data a nodir yn Adran 2, ac os yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn destun eithriad, caiff hyn ei esbonio i mi.

Llofnod: ……………………………………………… Dyddiad: …………………………………

**Sylwer:** Ni fydd y cyfnod cydymffurfio y mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r cais hwn ynddo yn cychwyn nes bod digon o wybodaeth wedi'i darparu i'n galluogi i ddod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae hyn yn cynnwys y dogfennau adnabod/dogfennau eraill sydd eu hangen.

## Adran 5 Dychwelyd y ffurflen hon

Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi a'r ddogfen adnabod/dogfennau eraill sydd eu hangen i:

| | |
|---|---|
| Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Tŷ Penallta<br>Parc Tredomen<br>Ystrad Mynach<br>Hengoed,<br>CF82 7PG | Er mwyn sicrhau diogelwch eich dogfennau, rydyn ni'n argymell eich bod yn defnyddio gwasanaeth post sy'n diogelu pethau gwerthfawr. Fel arall, gallwch ddanfon eich dogfennau i swyddfeydd Tŷ Penallta trwy drefnu apwyntiad.<br><br>Ffoniwch 01443 864320 am apwyntiad. |